# DAFYDD ap DAFYDD LLWYD (ganwyd 1549), bardd ac aelod o deulu bonheddig

**Enw:** Dafydd ap Dafydd Llwyd
**Dyddiad geni:** 1549
**Priod:** Ales ferch Dafydd Llwyd
**Plentyn:** John Lloyd
**Rhiant:** Efa wraig Dafydd Llwyd ab Ieuan
**Rhiant:** Dafydd Llwyd ab Ieuan
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd ac aelod o deulu bonheddig
**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Ray Looker

Dolobran, ger Meifod, Sir Drefaldwyn; mab Dafydd Llwyd ab Ieuan a'i wraig Efa; g  r Ales, ferch Dafydd Llwyd o Lanarmon Mynydd Mawr; hendaid Charles, John, a Thomas, Crynwyr; a chyndad i'r arianwyr Lloyd. Ceir nifer o'i gerddi (yn y mesurau caeth) yn y llawysgrifau. Yn eu plith ceir rhai i Gilbert Humphrey o'r Cefn Digoll, Sir Drefaldwyn (1596), Hywel a Sion Fychan o [Lanfair] Caereinion (1599), Sion Huws, Maes y Pandy, ger Talyllyn, a'r doctor [ David ] Powell, ymrysonau rhyngddo â Roger Cyffin a Lewys Dwnn, a cherddi crefyddol a moesol. Canodd Bedo Hafesb gywydd marwnad iddo (Bodewryd MS. 1 (289). Ymddengys mai ei fab, John, biau'r englyn yn N.L.W. MS. 5270 (327).

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


Archifau LlGC: Llanstephan MS 133: Poetry (640)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 155: Poetry, apocryphal gospels, &c. (98)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 167: Poetry (30, 140)

*Llawysgrif Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 87 (69)

*NLW MS* 836 (39)

*NLW MS* 5270 (87)

*Additional Manuscript in the British Museum* 14874 (13)

*Cardiff Manuscript* 84 (133, 1229)

*NLW MS* 8330 (478)

*Llawysgrif Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 130 (191)

*Llawysgrif Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 151 (79b)

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, iv, 258; ix, 333

*Burke's Landed Gentry*

*Cymru (O.M.E.)* (O.J.)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 92


Y mae'r dyddiadau a roir yn Cymru, Enwogion Cymru a Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru yn rhy gynnar

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732721


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu